De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a Chynllun Lles Anifeiliaid De Cymru

Adroddiad Blynyddol

2022 - 2023

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad i'n Cynlluniau Ymweld i Wirfoddolwyr	4
Trosolwg o Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn Ne Cymru	5
Llywodraethu ein Cynllun	5
Dalfeydd yr Heddlu yn Ne Cymru	7
Data'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd	9
Canfyddiadau'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd	10
Datblygu'r Cynllun	11
Cynllun Lles Anifeiliaid	15
Sut mae Heddlu De Cymru yn Ymateb i'n Canfyddiadau	17

Rhagair

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Y Gwir Anrh Alun Michael:

Mae cyfraniad ein hymwelwyr annibynnol â dalfeydd a'n hymwelwyr lles anifeiliaid yn esiampl dda o “weithred hanfodol dinasyddiaeth” sydd wrth wraidd gwirfoddoli yn y wlad hon. Caiff y gwirfoddolwyr sy'n monitro ein dalfeydd a'r ffordd y caiff ein hanifeiliaid heddlu eu trin wneud hynny allan o lygad y cyhoedd ond nid ydynt yn llai pwysig am eu bod allan o'r golwg. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfle delfrydol i mi amlygu pwysigrwydd y rolau hanfodol hyn, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith sy'n mynd rhagddo bob wythnos i sicrhau bod hawliau a lles unigolion yn y ddalfa yn cael eu parchu a'u cynnal yn unol â'n hymrwymiad ehangach i hawliau dynol a chymdeithas gyfiawn a theg.

Mae hefyd yn sicrhau y caiff ansawdd bywyd y cŵn a'r ceffylau yn nheulu Heddlu De Cymru a'u hamodau byw a gwaith eu cadw i'r safon uchaf.Hoffwn ddiolch o galon i'n holl ymwelwyr fel aelodau gwerthfawr o'n teulu plismona. Hoffwn ddiolch iddynt am eu hymroddiad gwirfoddol a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac am eu hymdrechion parhaus i gynnal goruchwyliaeth gyson er gwaethaf yr heriau yn dilyn pandemig byd-eang sydd wedi effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau a'n gwaith.

Cyflwyniad i'n Cynlluniau Ymweld i Wirfoddolwyr

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am gynlluniau ymweld i wirfoddolwyr. Nod y cynlluniau yw rhoi sicrwydd i'n cymunedau ynghylch y ffordd y mae'r heddlu yn cyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd.

Yn Ne Cymru, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd statudol a'r cynllun ymweld anstatudol ar gyfer Lles Anifeiliaid. Mae'r Comisiynydd yn penodi gwirfoddolwyr o'r gymuned leol i ymweld â gorsafoedd yr heddlu, a safle cŵn a cheffylau'r heddlu yn ddirybudd.

Mae'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd statudol yn cynnwys ymwelwyr gwirfoddol yn cyflwyno adroddiadau ar les y rhai yn y ddalfa yn wythnosol, gan sicrhau bod eu hawliau yn cael eu cynnal. Mae'n ddull effeithiol o oruchwylio dalfeydd yr heddlu ac yn un o lawer o agweddau ar rôl craffu a goruchwylio gyffredinol y Comisiynydd.

Yn Ne Cymru, mae'r Comisiynydd wedi penodi Rheolwr Cynllun sy'n goruchwylio'r ffordd y mae'r cynllun Ymwelwyr â Dalfeydd yn gweithredu'n gyffredinol ar ei ran. Mae Rheolwr y Cynllun yn gyfrifol am ddau banel – panel y Dwyrain a phanel y Gorllewin. Mae panel y Dwyrain yn cwmpasu'r dalfeydd ym Mae Caerdydd a Merthyr Tudful. Mae panel y Gorllewin yn cwmpasu'r dalfeydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe.

Fel rhan o'r Cynllun Ymweld ar gyfer Lles Anifeiliaid, mae gwirfoddolwyr yn adrodd ar les cŵn a cheffylau'r heddlu drwy ymweld â safle cŵn a cheffylau Heddlu De Cymru bob pythefnos.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar weithgarwch y cynllun o fis Ebrill 2022 i ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae'n amlygu gwaith ein hymwelwyr annibynnol â dalfeydd, eu canfyddiadau a'r gwerth a roddant i'n cymunedau.

Trosolwg o Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn Ne Cymru

Yn 2022-23, darparwyd y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn Ne Cymru gan 20 o ymwelwyr gwirfoddol wedi'u rhannu'n ddau banel – panel y Dwyrain a phanel y Gorllewin. Dangosir y dadansoddiad demograffig o'r gwirfoddolwyr yn y tabl dros y dudalen.

Nod ein gwirfoddolwyr yw cynnal ymweliadau unwaith yr wythnos â dalfeydd Merthyr, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, gyda thri ymweliad bob pythefnos â Gorsaf Heddlu Canol Abertawe. Gwnaed y penderfyniad i gynyddu nifer yr ymweliadau â Gorsaf Heddlu Canol Abertawe o ystyried pa mor hen yw'r ddalfa a'r materion cysylltiedig a godwyd gan ymwelwyr. Caiff hyn ei adolygu eto yn ystod 2023.

Mae ymgyrchoedd recriwtio fel arfer yn cael eu cynnal unwaith bob 12 i 18 mis, yn dibynnu ar y swyddi gwag ar y paneli. Mae'n ofynnol i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd newydd eu penodi gwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn foddhaol. Yr uchafswm cyfnod penodiad ar gyfer ymwelwyr gwirfoddol yw naw mlynedd, a chaiff pob penodiad ei adolygu drwy gyfweliad a gweithdrefnau fetio bob tair blynedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Nid oes gan Dde Cymru gyfleusterau i ddal unigolion o dan Ddeddf Terfysgaeth (TACT) 2000. Fodd bynnag, oherwydd y lefel diogelwch / bygythiad barhaus, mae un o'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd presennol wedi cael ei fetio a'i hyfforddi i'w alluogi i ymweld ag unigolion TACT pe bai angen ar ryw adeg yn y dyfodol.

Llywodraethu ein Cynllun

Mae'r ddau banel yn cyfarfod bob chwarter â'r Arolygydd Dalfeydd Rhanbarthol a Rheolwr y Cynllun er mwyn codi pryderon sy'n codi o ymweliadau, tynnu sylw at arferion da a thrafod unrhyw newidiadau mewn polisi a gweithdrefnau sy'n effeithio ar y dalfeydd lleol a'r rôl ymweld. Mae pob panel wedi'i gadeirio gan ymwelydd a benodir gan aelodau'r panel am gyfnod o dair blynedd.

Llunnir crynodeb o faterion a nodwyd yn y chwarter blaenorol gan Reolwr y Cynllun mewn ymgynghoriad ag aelodau'r panel, a chaiff ei ddosbarthu i'r Arolygydd a'r aelodau ei ystyried cyn y cyfarfod. Gellir codi materion ychwanegol ar y diwrnod.

Roedd cyfarfodydd panel yn 2022/23 yn cynnwys trafodaeth am y themâu canlynol:

- Lefelau staffio
- Stoc cynnyrch mislif/bwyd
- Hyfforddiant Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
- Pobl ifanc yn y Ddalfa
- Eitemau tynnu sylw
- Deunyddiau crefyddol

Dangosir y dadansoddiad demograffig o'r ymwelwyr gwirfoddol yn y tabl isod:

Aelodaeth Cynllun De Cymru	
Oedran	
18 i 25 oed	0.0%
26 i 50 oed	47.4%
51 i 70 oed	21.1%
71 + oed	31.6%
Rhywedd	
Benywaidd	68.4%
Gwrywaidd	31.6%
Ethnigrwydd	
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	0.0%
Cymysg	0.0%
Pacistanaidd	5.2%
Gwyn - Prydeinig	47.4%
Gwyn - Cymreig	47.4%
Anabledd	
Nac oes	84.2%
Oes	15.8%
Crefydd	
Cristnogaeth	36.8%
Mwslim	5.3%
Dim crefydd	36.8%
Arall	0%
Gwell gennyf beidio â dweud	21.1%
Cyfeiriadedd Rhywiol	
Hoyw/Lesbiaidd/Deurywiol	21.1%
Heterorywiol/Strêt	78.9%
Gwell gennyf beidio â dweud	0.0%
Y Gymraeg	
Ddim yn siarad Cymraeg	68.4%
Dysgwr Cymraeg	26.3%
Siaradwr Cymraeg	5.3%

Dalfeydd yr Heddlu yn Ne Cymru

Delwedd o Ddalfa Merthyr

Mae Heddlu De Cymru yn gweithredu pedair dalfa, ac mae'r rhain wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd, Merthyr Tudful, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr. Adeiladwyd y dalfeydd ym Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr yn 2014 ac maent wedi'u lleoli i ffwrdd o ganol y dref. Mae gan bob dalfa 42 o gelloedd ac mae'r ddwy ddalfa yn unfath o ran cynllun. Mae'r ddalfa hynaf yn ardal De Cymru yn Abertawe. Mae'n rhan o orsaf heddlu Canol Abertawe, gyda 27 o gelloedd. Cwblhawyd gorsaf heddlu Bae Caerdydd yn 2009 ac mae'r ddalfa wedi'i chynllunio dros 2 lefel, gyda chyfanswm o 60 o gelloedd.

Galw am Blismona

Yn Ne Cymru yn ystod 2022-2023, roedd tua 22,473 o arestiadau sylfaenol* a arweiniodd at gadw unigolion yn y ddalfa. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu tua 12.37% ers 2021-22, pan gafwyd ffigur o tua 20,000.

Mae'r tueddiad wedi bod yn debyg ym mhob rhan o ardal yr heddlu. Nodir isod ddadansoddiad o'r unigolion a gadwyd yn y ddalfa yn 2022-23:

Unigolion a Gedwir yn y Ddalfa (2022-23)

Rhywedd

82% Gwrywaidd

17% Benywaidd

1% Anneuaidd

Oedran

6% 10-17 oed

20% 18-25 oed

74% 26+ oed

24,473 o arestiadau sylfaenol* yn 2022-23

Ethnigrwydd

81% Gwyn

5.5% Du ac Ethnig Leiafrifol

13.5% Heb nodi diffiniad

Anabledd ac Iechyd Meddwl

0.3% Dangosyddion Anabledd (corfforol)

63% Dangosyddion Iechyd Meddwl

*Mae arestiad sylfaenol yn cyfeirio at y drosedd lle y caiff unigolyn ei arestio'n wreiddiol a'i roi yn y ddalfa. Wedi hynny, gall unigolyn gael ei arestio am droseddau pellach. Defnyddir y term hwn i osgoi cyfrif ddwywaith.

Data Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

Mae'r data canlynol yn cyfeirio at ymweliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd cyfanswm o 140 o ymweliadau yn 2022-23 ac ymwelwyd â 38.78% o'r unigolion a oedd 'ar gael' (cyfanswm o 922 o unigolion gydag ymweliadau yn cael eu cynnal â 358 ohonynt). Efallai na fydd unigolion 'ar gael' am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys oherwydd eu bod yn cysgu, o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, mewn cyfweliad, yn defnyddio cyfleusterau hylendid neu o ganlyniad i gyngor i beidio ag ymweld ag unigolion penodol am eu bod wedi cynhyrfu neu'n ymosodgar iawn.

Yn ogystal â'r 358 o unigolion a gyfwelwyd gan y gwirfoddolwyr, cafodd 237 o unigolion eraill eu goruchwylio naill ai drwy dybio caniatâd i weld cofnod y ddalfa neu drwy weld unigolyn drwy agorfa'r drws, er enghraifft.

Yn 2022-23, cynhaliwyd 44 o ymweliadau â Chaerdydd a Merthyr a 96 â Phen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaeth aelodau'r panel gyfiawnhau cynnydd yn nifer yr ymweliadau ag Abertawe oherwydd nifer y materion ynglŷn â'r adeilad/ystad a godwyd yn ystod ymweliadau. Caiff hyn ei adolygu yn ystod 2022-23.

Mae'r siart isod yn rhoi dadansoddiad o nifer yr ymweliadau fesul gorsaf.



Weithiau, mae'r dalfeydd yn brysur iawn ac oherwydd cyfyngiadau amser ar staff hebrwng y ddalfa, mae'r ymwelwyr yn blaenoriaethu unigolion i gyfweld â nhw. Bydd ymwelwyr yn blaenoriaethu merched a phobl ifanc. Siaradodd yr ymwelwyr â 54 o bobl ifanc yn ystod eu hymweliadau (8 merch ac 46 bachgen).

Canfyddiadau'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd



Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hollbwysig o ran tynnu sylw at unrhyw broblemau yn y ddalfa a sicrhau bod y rhain yn cael eu dwyn at sylw staff y ddalfa a Rheolwr y Cynllun er mwyn eu hunioni cyn gynted â phosibl. Os bydd yr ystafell yn brysur, bydd y gwirfoddolwyr yn blaenoriaethu'r gwaith o siarad â phobl ifanc a merched yn y lle cyntaf i sicrhau bod eu hanghenion wedi'u diwallu, cyn siarad ag unrhyw unigolion eraill. Gallai'r materion a godwyd gan yr ymwelwyr gynnwys unrhyw bryderon am les yr unigolyn ac unrhyw faterion am yr ystad/gwaith atgyweirio. Bydd ymwelwyr yn nodi materion neu bryderon ymddangosiadol o'u hymweliadau ar ffurflen adrodd.

Caiff copi o'r adroddiad ei adael gyda Rhingyll y ddalfa a hefyd caiff ei anfon at Reolwr y cynllun i'w gofnodi. Caiff pob mater sy'n codi ei drafod yn ystod cyfarfodydd panel a bydd cynrychiolydd o'r heddlu yn rhoi diweddariad i'r ymwelwyr neu adborth ar eu canfyddiadau. Caiff materion thematig eu casglu gan Reolwr y Cynllun a'u nodi mewn adroddiad ac yna eu trafod yn ystod y cyfarfod. Caiff themâu cenedlaethol a amlygir gan Gymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) eu rhannu a'u trafod â'r gwirfoddolwyr hefyd, gydag enghraifft ddiweddar yn cynnwys ‘Ymgyrch Diogelu’ (gweler tudalen 11).

Bydd yr ymwelwyr yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion brys ar adeg yr ymweliad a chânt eu codi ar unwaith â Rhingyll neu Arolygydd y Ddalfa. Yna, bydd ymwelwyr yn cofnodi'r wybodaeth ar eu ffurflenni adrodd a byddant hefyd yn rhoi gwybod i Reolwr y Cynllun.

Pan fydd unigolyn yn y ddalfa yn tynnu sylw at bryder neu'n gwneud cwyn anffurfiol i ymwelwyr, caiff hyn ei godi gydag aelod o staff y ddalfa a gall yr ymwelwyr edrych ar gofnod dalfa yr unigolyn, gyda'i ganiatâd. Cynghorir unigolion yn y ddalfa os hoffent wneud cwyn, y dylent siarad â'r swyddog sy'n gyfrifol.

Mae'n bwysig nodi bod canmoliaeth a sylwadau cadarnhaol hefyd yn cael eu cofnodi gan yr ymwelwyr ac mae Rheolwr y Cynllun yn sicrhau y caiff y rhain eu cofnodi a'u rhannu â

chynrychiolwyr yr heddlu. Yn ystod cyfarfodydd panel, bydd ymwelwyr yn lleisio eu canmoliaeth am aelodau o staff yn y ddalfa sy'n bwysig i'w rhannu, yn eu barn nhw. Isod mae rhai enghreifftiau o'r sylwadau cadarnhaol sydd wedi cael eu nodi gan yr ymwelwyr yn ystod y flwyddyn:

- Roedd Staff y Ddalfa yn barod i helpu ac yn groesawgar.
- Roedd staff benywaidd yn bresennol a chynigiwyd cynnyrch mislif.

Yn ystod 2022-23, bu 63 o ddigwyddiadau niweidiol a nodwyd yn y ddalfa ledled ardal yr heddlu. Diffinnir 'digwyddiad niweidiol' gan y Coleg Plismona fel 'unrhyw ddigwyddiad a fyddai wedi arwain at farwolaeth neu anaf difrifol i unrhyw un pe bai wedi parhau'.

Caiff y materion hyn eu dwyn at sylw Rheolwr y Cynllun gan staff y ddalfa a chânt eu trafod yn ystod cyfarfodydd panel â'r gwirfoddolwyr. Rhoddodd cynrychiolwyr yr heddlu drosolwg cryno o'r digwyddiadau. Isod ceir rhai enghreifftiau o ddigwyddiadau niweidiol a ddigwyddodd yn ystod 2022-23:

- *Llyncu cyffuriau neu alcohol*
- *Eitemau wedi'u cuddio*
- *Hunan-niweidio*

Yn dilyn trafodaethau am y digwyddiadau niweidiol, roedd yr ymwelwyr â dalfeydd yn hyderus bod y materion wedi cael eu nodi a bod staff y ddalfa wedi delio â nhw yn briodol. Mae hyn yn gyfran gymharol isel o unigolion o ran faint o bobl sydd wedi bod drwy'r ddalfa yn 2022-23.

Datblygu'r Cynllun

Rheolwr Newydd y Cynllun

Ym mis Tachwedd 2022, penodwyd Tamara Lafferty fel Rheolwr newydd y Cynllun.

Y Grŵp Ffocws

Ym mis Chwefror 2023, cafodd grŵp bach o wirfoddolwyr ei ddewis i gymryd rhan mewn Grŵp Ffocws. Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar y meysydd a nodwyd fel rhai i'w datblygu yn y Cynllun. Trafododd y grŵp feysydd megis cyfathrebu, deunydd hyfforddi, recriwtio a digido ffurflenni adrodd. Bydd Rheolwr y Cynllun nawr yn ystyried mynd ag unrhyw awgrymiadau a wnaed yn y Grŵp Ffocws ymhellach.

Ffurflenni Adrodd

Ar hyn o bryd, mae Rheolwr y Cynllun yn holi am y posibilrwydd o wella'r ffordd y mae'r ymwelwyr yn cyflwyno'u canfyddiadau drwy greu fersiwn ddigidol o'r ffurflen adrodd. Mae Rheolwr y Cynllun wrthi'n trafod â Heddlu De Cymru a Rheolwyr eraill y Cynllun sy'n defnyddio'r fersiwn ddigidol er mwyn adrodd ac yn gobeithio y gall fynd ag ef ymhellach yn ystod 2023/2024.

Cylchlythyr

Ym mis Ionawr 2023, lluniodd Rheolwr y Cynllun y rhifyn cyntaf o gylchlythyr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ac Ymwelwyr Lles Anifeiliaid. Bydd y cylchlythyr hwn yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob gwirfoddolwr am faterion yn ymwneud â'r Cynllun sy'n hawlio'r penawdau. At hynny, bydd y cylchlythyr yn cynnwys deunydd ac adnoddau hyfforddi gan Gymdeithas Annibynnol Ymweld â Dalfeydd (ICVA).

Ymgyrch Diogelu

Lansiwyd yr Ymgyrch Diogelu unwaith eto ar ddiwedd 2022, wedi i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu gytuno i wneud hynny, er mwyn darparu cynllun wrth gefn i gartrefu carcharorion dros dro yn nalfeydd yr heddlu.

Mae Ymgyrch 'Safeguard' yn gweithredu yn unol â phedwar egwyddor sylfaenol:

1. Y Carcharorion o fewn cwmpas Ymgyrch 'Safeguard' yw'r rhai hynny sydd wedi'u cyhuddo, yn ymddangos yn y llys, ac wedyn yn cael eu cadw yn y ddalfa.
2. Caiff carcharorion eu lletya yng nghelloedd yr heddlu am y cyfnod byrraf posibl.
3. Bydd yr heddlu yn gyfrifol am ofalu am garcharorion a gaiff eu cadw yn llety'r heddlu yn gyfreithlon yn y ddalfa
4. Lle y bo'n bosibl, bydd yr Uned Rheoli Poblogaeth (PMU) a'r Gwasanaethau Contractau Cludo Carcharorion (PECS) yn sicrhau bod carcharorion yn cael eu cludo yn ôl i sefydliadau'r Gwasanaeth Carchardai cyn gynted â phosibl yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. Er budd lles a pharch tuag at y carcharorion, dylid ond eu cadw mewn celloedd ‘Diogelu’ yn y ddalfa, lle y bo'n ymarferol, am un noson (ac eithrio ar benwythnosau neu wyliau banc lle y gall y cyfnod dan sylw fod yn hirach).

Lluniodd yr ICVA ddogfen friffio lawn a rhestrau gwirio ar gyfer yr ICVS ar Ymgyrch 'Safeguard'.

Bydd Rheolwr y Cynllun yn parhau i gydweithio â Heddlu De Cymru a'r ICVA ar hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gwirfoddolwyr yn unol â hynny.

Hyfforddiant Gloywi

Ym mis Ionawr 2023, rhoddodd Rheolwr y Cynllun Becyn Hyfforddiant Gloywi i bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa presennol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ffurflenni adrodd, Canllawiau'r Cynllun a'r broses o ymweld â Dalfeydd.

Hyfforddiant Swyddog Cadw yn y Ddalfa

Ar 8 Mehefin 2023, aeth tri gwirfoddolwr a Rheolwr y Cynllun i'r hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Cadw yn y Ddalfa ym Mhencadlys Heddlu De Cymru er mwyn rhoi cyflwyniad.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys briff ar hanes y Cynllun, ymweliad â'r pencadlys a'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan Staff y ddalfa yn ystod ymweliadau. Roedd hwn yn ddigwyddiad defnyddiol er mwyn dangos y Cynllun a rhoi cipolwg o ddiben a buddiannau Ymwelwyr â Dalfeydd i recriwtiaid newydd.

Y dyfodol

Ymgysylltu a Recriwtio

Mae tîm y Comisiynydd yn bwriadu gwneud defnydd gwell o'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Comisiynydd drwy anelu at rannu gwybodaeth â'r cyhoedd am bwysigrwydd y gwaith ac ymdrech y gwirfoddolwyr yn fisol. Y gobaith yw y bydd hyn hefyd yn helpu i ehangu cynulleidfaoedd ac ennyn diddordeb gan ymgeiswyr yn ystod yr ymgyrchoedd recriwtio. Mae hyn hefyd yn dangos tryloywder ynglŷn â'n cyfrifoldebau ac yn ennyn hyder y cyhoedd yn y ffordd y caiff dalfeydd eu rheoli a'r ffordd y caiff pobl eu trin yn nalfeydd yr heddlu.

Lansiodd Rheolwr y Cynllun ymgyrch recriwtio ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ym mis Mawrth 2023. Gweithiodd Rheolwr y Cynllun gyda'r Tîm Ymgysylltu yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu er mwyn rhannu syniadau ar sut y gall y Cynllun recriwtio'n weithredol i gynrychioli cymuned De Cymru drwy gynyddu amrywiaeth a chydraddoldeb. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn dyddiau agored/ffeiriau gyrfaoedd amrywiol, diweddaru tudalen Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd/Lles Anifeiliaid ar wefan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a chyrraedd partneriaid allanol.

Rhagwelir y bydd ymgyrch recriwtio arall yn cael ei lansio yn ystod hydref 2023.

Hyfforddiant

Ar ôl mis Gorffennaf 2023, bydd Rheolwr y Cynllun yn cynnal sesiynau hyfforddi bob deufis i'r ymwelwyr. Bydd y themâu ar gyfer yr hyfforddiant yn cynnwys iechyd meddwl, pobl ifanc yn y ddalfa a deunyddiau gwrth-hiliaeth. Bydd hwn yn gyfle gwych i wirfoddolwyr ddiweddaru eu gwybodaeth am feysydd o'r fath a'i rhoi ar waith yn ystod eu hymweliadau.

O ran sicrhau ansawdd, mae cynllun De Cymru yn gynllun **ARIAN**!

Bob dwy flynedd, mae Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) yn lansio ei Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Safon ansawdd annibynnol yw hon sy'n asesu effeithiolrwydd cynlluniau ac mae'n cwmpasu sawl maes, gan gynnwys y canlynol:

- Recriwtio a hyfforddi
- Rheoli gwirfoddolwyr
- Cyfathrebu
- Dwyn yr heddlu i gyfrif
- Tryloywder a sicrhau'r cyhoedd
- Lles unigolion yn y ddalfa
- Buddsoddi yn Rheolwr y Cynllun a'i gefnogi

O ran sicrhau ansawdd, nodwyd bod cynllun De Cymru yn gynllun arian o'r blaen, sy'n golygu yr oeddem yn gweithio ar lefel uwchlaw cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer.

Ar lefel arian, mae ein cynllun wedi datblygu cynlluniau hyfforddi manwl ar gyfer ein gwirfoddolwyr ac wedi rhoi prosesau llywodraethu ar waith sy'n corffori ymgysylltiad yr heddlu ac yn ymrwymo i ddatrys materion anodd. Ar lawr gwlad, mae cynllun arian yn golygu bod ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn treulio mwy o amser yn edrych ar gofnodion dalfa unigolion yn y ddalfa ac yn canolbwyntio ymhellach ar les y rhai sy'n cael eu cadw.

Rydym wrthi'n gweithio tuag at gyflawni statws arian unwaith eto yn 2023.

Cynllun Lles Anifeiliaid

Caiff Cynllun Lles Anifeiliaid De Cymru ei hwyluso gan saith gwirfoddolwr ar hyn o bryd (gan gynnwys pedwar recriwt newydd a fydd yn dechrau ym mis Mehefin 2023), sydd hefyd yn Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Mae'r gwirfoddolwyr yn cynnal ymweliadau dirybudd rheolaidd ag Adran Cŵn a Cheffylau Heddlu De Cymru i arsylwi ac adrodd ar drefniadau lles, stablau ceffylau a chytiau cŵn yr heddlu.

Delwedd o Geffyl yr Heddlu gydag Ymwelwyr Lles Anifeiliaid ar Safle Waterton

Mae ymwelwyr yn nodi nifer y cŵn a'r ceffylau ar y safle ac unrhyw bryderon iechyd neu les penodol, yn ogystal ag adrodd ar gyflwr ffisegol y safle, cyflwr y cerbydau cludo anifeiliaid ac unrhyw faterion atgyweirio. Cynhelir cyfarfodydd panel ddwywaith y flwyddyn ac mae staff, swyddogion, gwirfoddolwyr, milfeddyg lleol a chynrychiolydd o'r Ymddiriedolaeth Cŵn yn mynychu.

Gall gwirfoddolwyr dynnu sylw at unrhyw bryderon sydd ganddynt a chaiff pob mater ei drafod â chynrychiolwyr yr Heddlu. Ymwelydd profiadol a benodwyd gan aelodau'r panel sy'n cadeirio holl gyfarfodydd y panel ar hyn o bryd.

Caiff ymwelwyr eu harwain gan ‘bum rhyddid’ lles anifeiliaid a atodir i Ganllawiau'r Cynllun:

1) **Rhyddid rhag newyn a syched** – dŵr ffres a deiet iach ar gael yn hawdd.
2) **Rhyddid rhag poen, anaf a dioddef** – atal neu ddiagnosis a thriniaeth gyflym.
3) **Rhyddid rhag ofn a gofid** – amodau a thriniaeth sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.
4) **Rhyddid i fynegi ymddygiad arferol** – gofod digonol, cyfleusterau cywir a chwmnïaeth anifeiliaid eraill o'r un rhywogaeth.
5) **Rhyddid rhag anesmwythdra** – amgylchedd priodol gan gynnwys lloches a man cyfforddus i orffwys a chysgu.

Yn ystod 2022-23, cynhaliodd yr ymwelwyr 11 o ymweliadau â'r adran Cŵn a Cheffylau ar safle Waterton er mwyn gweld cŵn a cheffylau'r heddlu. Oherwydd y nifer fechan o ymwelwyr Lles Anifeiliaid, ni fu modd i'r gwirfoddolwyr gynnal y nifer arferol o ymweliadau. Fodd bynnag, mae Rheolwr y Cynllun wedi newid Canllawiau'r Cynllun ac nid yw bellach yn ofynnol mai Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn unig a all wneud cais i fod yn Ymwelwyr Lles Anifeiliaid. Tybir y bydd hyn o fudd i'r broses recriwtio.

Cynhaliwyd Diwrnod Hyfforddiant Sefydlu ar 15 Mehefin 2023. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys ymweliad safle â'r adran Cŵn a Cheffylau yn Waterton a mewnbwn gan yr Ymddiriedolaeth Cŵn a Milfeddygon Maes Glas.

Nodwyd y materion canlynol gan yr ymwelwyr yn 2022-23:

- Mae waliau'r cytiau cŵn yn aros i gael eu hatgyweirio.
- Tymheredd oer yn y cytiau cŵn.
- Mae angen ardaloedd cysgodol yn y cytiau cŵn.

Cafodd yr holl faterion eu nodi a'u rhannu â rheolwr yr iard, sydd wrthi'n eu datrys ar hyn o bryd ar y cyd â'r adran ystadau a chontractwyr allanol.

Nodwyd y sylwadau cadarnhaol canlynol gan yr ymwelwyr a chawsant eu hadrodd yn ôl i staff a swyddogion:

- Pob anifail yn cael gofal da.
- Croeso cynnes gan y staff wrth gyrraedd yr iard.
- Pob cerbyd mewn cyflwr da.



Delwedd o Gi yr Heddlu gydag Ymwelwyr Lles Anifeiliaid ar Safle Waterton

Mae'r ymwelwyr hefyd yn monitro unrhyw gŵn mewn cytiau sy'n aros am gartrefi newydd, mewn achosion lle y cânt eu gwrthod fel cŵn yr heddlu o bosibl, neu pan fydd eu swyddogion yn ymddeol. Mae ymwelwyr yn nodi unrhyw salwch, anafiadau ac yn cadw llygad am unrhyw arwyddion o straen. Nodir glanweithdra'r cytiau cŵn, y stablau a'r safle hefyd.

Sut mae Heddlu De Cymru yn Ymateb i'n Canfyddiadau

“Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn chwarae rôl hanfodol yng ngwasanaethau'r ddalfa yn Heddlu De Cymru, gan weithredu fel grŵp craffu sy'n goruchwylio'r gwaith a gaiff ei gyflawni yn ein hunedau Dalfa.

Mae'r adborth a gawn ganddynt yn werthfawr er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol ac yn rhoi safonau moesegol ar waith ar gyfer yr unigolion yn ein dalfeydd.

Mae'r gydberthynas waith rhyngom ag Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn gryf iawn ac rydym yn rhyngweithio'n rheolaidd â nhw yn yr unedau dalfa ac yn rhyngweithio â'u tîm rheoli yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.”

Uwch-arolygydd Dros Dro Eenmaa
Pennaeth Gwasanaethau'r Ddalfa, Heddlu De Cymru

Casgliad

Hoffai'r Comisiynydd a'i dîm ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod lles a hawliau unigolion yn nalfeydd Heddlu De Cymru wedi cael eu parchu. Rydym yn ddiolchgar i bob ymwelydd am barhau i gyfrannu gwybodaeth ac arbenigedd i'r Cynllun ac am chwarae rhan hanfodol yng ngwaith a threfniadau goruchwylio Heddlu De Cymru.

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

I gael mwy o wybodaeth am eich Comisiynydd neu i gael gwybod sut i wneud cais i fod yn Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd, ewch i:

/commissionersw

www.southwalescommissioner.org.uk

Neu cysylltwch â ni drwy:

commissioner@south-wales.police.uk

01656 869 366

Pencadlys Heddlu De Cymru,
Heol y Bont-faen,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 3SU

ICVA
The Independent Custody Visiting Association

https://icva.org.uk/

https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/

npm
national preventive mechanism

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg